PARTNERIAETH

# YR AMSER GORFFENNOL

| Cadarnhaol | Negyddol |
|---|---|
| Arhosais i | Arhosais i ddim |
| Bwytais i | Fwytais i ddim |
| Cerddais i | Cherddais i ddim |
| Chwaraeais i | Chwaraeais i ddim |
| Darllenais i | Ddarllenais i ddim |
| Enillais i | Enillais i ddim |
| Gwelais i | Welais i ddim |
| Gwisgais i | Wisgais i ddim |
| Gwyliais i | Wyliais i ddim |
| Nofiais i | Nofiais i ddim |
| Prynais i | Phrynais i ddim |
| Rhedais i | Redais i ddim |
| Siaradais i | Siaradais i ddim |
| Yfais i | Yfais i ddim |

Mwynheais i'r rhaglen ddogfen am blanedau.

Ar fy mhen-blwydd yn ddeg cefais i feic newydd

Gwelais i actor enwog yn y dref a gofynais iddo am lun.

Cefais i fy ngeni yng Nghaerfyrddin.

Rhedais i i'r siop cyn dod i'r ysgol bore 'ma.

Gwelais i Jac yn y parc ddydd Sadwrn

Welais i ddim y ffilm newydd yn y sinema.

PARTNERIAETH

# YR AMSER GORFFENNOL

I ddefnyddio'r rhain yn y 3ydd person i siarad am beth mae e/hi wedi'i wneud, bydd angen i chi newid y terfyniad o 'ais' i 'odd' e.e

**Bwytais i**

**Bwytodd e**

**Bwytodd hi**

Dyma rai enghreifftiau:

**Ceisiodd hi goginio swper i'w theulu neithiwr.**

**Teimlodd hi'r llawr yn ysgwyd o dan ei thraed.**

**Roedd e'n sefyll tu allan i ddrws y Prifathro am ddwy awr ddoe.**

**Cerddodd Twm adref o'r ysgol gyda'i ffrindiau ddoe.**

**Eisteddodd pawb yn dawel ar ddechrau'r prawf gan wrando ar yr athro.**

**Derbyniodd y dosbarth wobr am eu presenoldeb wrth y Pennaeth Blwyddyn.**

**Seiclodd Siân adref mor gyflym â roced.**

I siarad am beth rydym ni, maen nhw, rydych chi wedi'i wneud, bydd angen i chi newid y terfyniad i 'on' 'om' ac 'och' e.e. bwyton ni -

**Gwelon ni fand newydd yn canu yn y neuadd nos Sadwrn.**

**Nofion nhw dros y tonnau anferth.**

**Chwilioch chi am ffeithiau ar y we neu mewn llyfrau?**

**Ddarllenon nhw ddim y cwestiwn cyn dechrau ysgrifennu.**

**Phrynon ni ddim byd yn y siop ffrwythau heddiw.**

**Weloch chi'r athrawes newydd yn y neuadd y bore 'ma?**

PARTNERIAETH

# YR AMSER GORFFENNOL

Mae yna 4 ferf afreolaidd. Dw i'n siŵr eich bod chi wedi dechrau defnyddio 'Es i' a 'Ces i'

| | Person cyntaf | Trydydd person | Person cyntaf lluosog |
|---|---|---|---|
| mynd | Es i<br><br>Es i ddim | Aeth e/hi<br><br>Aeth e/hi ddim | Aethon ni<br><br>Aethon ni ddim |
| dod | Des i<br><br>Ddes i ddim | Daeth e/hi<br><br>Ddaeth e/hi ddim | Daethon ni<br><br>Ddaethon ni ddim |
| cael | Ces i<br><br>Ches i ddim | Cafodd e/hi<br><br>Chafodd e/hi ddim | Cawson ni<br><br>Chawson ni ddim |
| gwneud | Gwnes i<br><br>Wnes i ddim | Gwnaeth e/hi<br><br>Wnaeth e/hi ddim | Gwnaethon ni<br><br>Wnaethon ni ddim |

Cawson nhw wyliau bendigedig yn yr Eidal fis Awst diwethaf.

Cawson nhw sglodion i swper gyda'u mamgu.

Gweithion nhw gyda'i gilydd fel tîm i gyflawni'r dasg.

Aethon nhw adref ar y bws ond aethon ni ar y trên.

Ar ein gwyliau haf eleni gwnaethom ni lawer o bethau diddorol.

Aethoch chi ar y trip preswyl i Ffrainc wythnos diwethaf?